OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2018 Rhif 969 (Cy. 196)

2018 No. 969 (W. 196)

YNNI, CYMRU

ENERGY, WALES

Rheoliadau Trwyddedu Petrolewm (Ffioedd) (Cymru) 2018

The Petroleum Licensing (Charges) (Wales) Regulations 2018

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru godi ffioedd mewn cysylltiad â chais iddynt am drwydded petrolewm o dan Ddeddf Petrolewm 1998 ac ar gyfer cydsyniadau sy'n ofynnol o dan y trwyddedau hynny ar gyfer gweithgareddau a materion amrywiol a restrir.

Mae rheoliadau 1 a 2 yn cynnwys darpariaethau cyffredinol.

Mae rheoliad 3 yn nodi'r ffi sy'n daladwy wrth wneud cais am drwydded o dan adran 4 o Ddeddf Petrolewm 1998.

Mae rheoliad 4 yn nodi fformiwla ar gyfer pennu'r ffi sy'n daladwy wrth wneud cais i Weinidogion Cymru am gydsyniad ar gyfer rhaglen ddatblygu a chynhyrchu. Mae rheoliad 5 yn nodi'r ffi sy'n daladwy wrth wneud cais i Weinidogion Cymru am gydsyniad ar gyfer cynnig ardal gadw neu ardal ddatblygu. Mae rheoliad 6 yn nodi'r ffioedd penodedig sy'n daladwy wrth wneud cais i Weinidogion Cymru am gydsyniad ar gyfer nifer o weithgareddau a restrir. Mae rheoliad 7 yn nodi'r ffi sy'n daladwy wrth wneud cais i Weinidogion Cymru am benderfyniad ynghylch maes olew.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations make provision for the Welsh Ministers to charge fees in respect of an application to them for a petroleum licence under the Petroleum Act 1998 and for consents required under those licences for various listed activities and matters.

Regulations 1 and 2 contain general provisions.

Regulation 3 sets out the fee payable upon application for a licence under section 4 of the Petroleum Act 1998.

Regulation 4 sets out a formula for determining the fee payable upon application for the Welsh Ministers' consent to a development and production programme. Regulation 5 sets the fee payable upon application for the Welsh Ministers' consent to a retention or development area proposal. Regulation 6 sets out fixed fees payable upon application for the Welsh Ministers' consent to a number of listed activities. Regulation 7 sets out the fee payable upon application to the Welsh Ministers for an oil field determination.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

2018 Rhif 969 (Cy. 196)

YNNI, CYMRU

Rheoliadau Trwyddedu Petrolewm (Ffioedd) (Cymru) 2018

Gwnaed	*4 Medi 2018*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru	*7 Medi 2018*
Yn dod i rym	*1 Hydref 2018*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 4 o Ddeddf Petrolewm 1998(**1**) ac adrannau 188 a 192 o Ddeddf Ynni 2004(**2**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Trwyddedu Petrolewm (Ffioedd) (Cymru) 2018 a deuant i rym ar 1 Hydref 2018.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "atal ffynnon dros dro" ("*well suspension*") yw atal defnyddio ffynnon dros dro fel y gellir ei hailddefnyddio at ddiben drilio neu waith arall;

ystyr "cynnig ardal ddatblygu" ("*development area proposal*") yw cynnig a gyflwynir yn unol â thrwydded datblygu a fforio petrolewm sy'n diffinio'r lleoliadau daearyddol o fewn maes petrolewm pan fo'r trwyddedai yn cynnig gwneud gwaith datblygu a chynhyrchu gan gynnwys, pan

(**1**) 1998 p. 17. Diwygiwyd adran 4 gan baragraff 15 o Atodlen 6 i Ddeddf Cymru 2017 (p. 4). Mae diwygiadau eraill i adran 4 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**2**) 2004 p. 20. Diwygiwyd adran 188 gan baragraff 24 o Atodlen 6 i Ddeddf Cymru 2017. Diwygiwyd adran 192 gan baragraff 60 o'r Atodlen honno. Mae diwygiadau eraill i adrannau 188 a 192 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

2018 No. 969 (W. 196)

ENERGY, WALES

The Petroleum Licensing (Charges) (Wales) Regulations 2018

Made	*4 September 2018*
Laid before the National Assembly for Wales	*7 September 2018*
Coming into force	*1 October 2018*

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by section 4 of the Petroleum Act 1998(**1**) and sections 188 and 192 of the Energy Act 2004(**2**) and now vested in them:

Title, commencement and application

1.—(1) The title of these Regulations is the Petroleum Licensing (Charges) (Wales) Regulations 2018 and they come into force on 1 October 2018.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

Interpretation

2. In these Regulations—

"the 2015 Regulations" ("*Rheoliadau 2015*") means the Petroleum Licensing (Applications) Regulations 2015(**3**);

"development and production programme" ("*rhaglen ddatblygu a chynhyrchu*") means a programme submitted pursuant to a petroleum licence setting out the measures proposed to be taken in connection with the development and production of a petroleum field;

(**1**) 1998 c. 17. Section 4 was amended by paragraph 15 of Schedule 6 to the Wales Act 2017 (c. 4). There are other amendments to section 4 which are not relevant to these Regulations.

(**2**) 2004 c. 20. Section 188 was amended by paragraph 24 of Schedule 6 to the Wales Act 2017. Section 192 was amended by paragraph 60 of that Schedule. There are other amendments to sections 188 and 192 which are not relevant to these Regulations.

(**3**) S.I. 2015/766, amended by S.I. 2016/912 and S.I. 2018/56; there are other amending instruments but none is relevant.

fo'n berthnasol, cynllun sy'n nodi'r gweithgareddau i'w gwneud;

ystyr "cynnig ardal gadw" ("*retention area proposal*") yw cynnig a gyflwynir yn unol â thrwydded datblygu a fforio petrolewm sy'n diffinio lleoliadau daearyddol pan fo'r trwyddedai yn cynnig gwneud gweithgareddau fforio a gwerthuso;

mae "ffynnon" ("*well*") yn cynnwys twll turio;

ystyr "gweithredwr" ("*operator*") yw person sydd wedi ei benodi'n weithredwr gosod, yn weithredwr ffynnon neu'r ddau;

ystyr "hysbysu" ("*notify*") yw hysbysu'n ysgrifenedig;

ystyr "rhaglen ddatblygu a chynhyrchu" ("*development and production programme*") yw rhaglen a gyflwynir yn unol â thrwydded petrolewm sy'n nodi'r mesurau y cynigir eu cymryd mewn cysylltiad â datblygu a chynhyrchu maes petrolewm;

ystyr "rhaglen waith" ("*work programme*") yw rhaglen sydd wedi ei nodi mewn atodlen i drwydded petrolewm sy'n nodi'r archwiliadau sydd i'w cynnal yn ystod y tymor cychwynnol, gan gynnwys unrhyw arolwg daearegol drwy unrhyw ddull ffisegol neu gemegol ac unrhyw brofion drilio;

ystyr "Rheoliadau 2015" ("*the 2015 Regulations*") yw Rheoliadau Trwyddedu Petrolewm (Ceisiadau) 2015(**1**);

mae i "trwydded datblygu a fforio petrolewm" yr ystyr a roddir i "petroleum exploration and development licence" yn rheoliad 2 o Reoliadau 2015;

mae i "trwydded draenio methan" yr ystyr a roddir i "methane drainage licence" yn rheoliad 2 o Reoliadau 2015;

mae i "trwydded fforio petrolewm tua'r tir" yr ystyr a roddir i "landward petroleum exploration licence" yn rheoliad 2 o Reoliadau 2015;

ystyr "trwydded petrolewm" ("*petroleum licence*") yw trwydded a roddir o dan adran 3 o Ddeddf Petrolewm 1998 (chwilio am betrolewm, ei durio a chael gafael arno) neu o dan adran 2 o Ddeddf Petrolewm (Cynhyrchu) 1934 (trwyddedau i chwilio am betrolewm a chael gafael arno)(**2**); ac

ystyr "trwyddedai" ("*licensee*") yw deiliad trwydded petrolewm.

"development area proposal" ("*cynnig ardal ddatblygu*") means a proposal submitted pursuant to a petroleum exploration and development licence defining the geographic locations within a petroleum field where the licensee proposes to undertake development and production including, where relevant, a plan setting out the activities to be carried out;

"landward petroleum exploration licence" ("*trwydded fforio petrolewm tua'r tir*") has the meaning given in regulation 2 of the 2015 Regulations;

"licensee" ("*trwyddedai*") means the holder of a petroleum licence;

"methane drainage licence" ("*trwydded draenio methan*") has the meaning given in regulation 2 of the 2015 Regulations;

"notify" ("*hysbysu*") means notify in writing;

"operator" ("*gweithredwr*") means a person who has been appointed as an installation operator, as a well operator or as both;

"petroleum exploration and development licence" ("*trwydded datblygu a fforio petrolewm*") has the meaning given in regulation 2 of the 2015 Regulations;

"petroleum licence" ("*trwydded petrolewm*") means a licence granted under section 3 of the Petroleum Act 1998 (searching for, boring and getting petroleum) or under section 2 of the Petroleum (Production) Act 1934 (licences to search for and get petroleum)(**1**);

"retention area proposal" ("*cynnig ardal gadw*") means a proposal submitted pursuant to a petroleum exploration and development licence defining the geographic locations where the licensee proposes to undertake exploration and appraisal activities;

"well" ("*ffynnon*") includes a borehole;

"well suspension" ("*atal ffynnon dros dro*") means the suspension of the use of a well such that it may be re-used for the purpose of drilling or other works; and

"work programme" ("*rhaglen waith*") means a programme set out in a schedule to a petroleum licence which sets out the prospecting to be undertaken during the initial term, including any geological survey by any physical or chemical means and any test drilling.

(**1**) O.S. 2015/766, a ddiwygiwyd gan O.S. 2016/912 ac O.S. 2018/56; mae offerynnau diwygio eraill ond nid oes yr un ohonynt yn berthnasol.

(**2**) 1934 p. 36. Diddymwyd y Ddeddf hon gan Ddeddf Petrolewm 1998 ond heb ragfarn i unrhyw hawl a roddwyd gan drwydded a oedd mewn grym yn union cyn cychwyn y Ddeddf honno, gweler paragraff 4 o Atodlen 3 i'r Ddeddf honno.

(**1**) 1934 c. 36. This Act was repealed by the Petroleum Act 1998 but without prejudice to any right conferred by a licence in force immediately before commencement of that Act, see paragraph 4 of Schedule 3 to that Act.

Y ffioedd sy'n daladwy ar gyfer cais am drwydded petrolewm

3. Rhaid i berson sy'n gwneud cais i Weinidogion Cymru am drwydded petrolewm a restrir yng ngholofn gyntaf Tabl 1 dalu'r ffi gyfatebol yn ail golofn y tabl hwnnw.

Tabl 1

Math o drwydded	*Y ffi sy'n daladwy*
Trwydded fforio petrolewm tua'r tir	£500
Trwydded draenio methan	£50
Trwydded datblygu a fforio petrolewm	£1,400

Fees payable for an application for a petroleum licence

3. A person who makes an application to the Welsh Ministers for a petroleum licence listed in the first column of Table 1 must pay the corresponding fee in the second column of that table.

Table 1

Type of licence	*Fee payable*
Landward petroleum exploration licence	£500
Methane drainage licence	£50
Petroleum exploration and development licence	£1,400

Ffi am gydsyniad ar gyfer rhaglen ddatblygu a chynhyrchu

4.—(1) Rhaid i drwyddedai sy'n gwneud cais i Weinidogion Cymru am gydsyniad ar gyfer rhaglen ddatblygu a chynhyrchu dalu ffi.

(2) Mae swm y ffi sy'n daladwy o dan baragraff (1) yn cael ei bennu gan y fformiwla—

£595 × A × B

pan fo—

A yn nifer y diwrnodau; a

B yn nifer y swyddogion

sy'n ofynnol er mwyn gwneud penderfyniad ynghylch y cais.

(3) Rhaid i'r ffi sy'n daladwy o dan baragraff (1) gael ei thalu o fewn 30 diwrnod i'r adeg y mae Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r trwyddedai am y penderfyniad ynghylch y cais oni bai bod Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r trwyddedai y caniateir i'r ffi gael ei thalu ar ddyddiad diweddarach.

(4) Ym mharagraff (2), ystyr "swyddog" ("*officer*") yw person a gymerir ymlaen gan Weinidogion Cymru, neu ar eu rhan, i gyflawni'r swyddogaeth y mae'r ffi berthnasol yn daladwy mewn cysylltiad â hi.

Fee for a consent to a development and production programme

4.—(1) A licensee who applies to the Welsh Ministers for consent to a development and production programme must pay a fee.

(2) The amount of the fee payable under paragraph (1) is determined by the formula—

£595 × A × B

where—

A is the number of days; and

B is the number of officers

required to determine the application.

(3) The fee payable under paragraph (1) must be paid within 30 days of the Welsh Ministers notifying the licensee of the determination of the application unless the Welsh Ministers notify the licensee that the fee may be paid at a later date.

(4) In paragraph (2), "officer" ("*swyddog*") means a person engaged by or on behalf of the Welsh Ministers to carry out the function in respect of which the relevant fee is payable.

Y ffi sy'n daladwy am gydsyniad ar gyfer cynnig ardal gadw neu gynnig ardal ddatblygu

5.—(1) Rhaid i drwyddedai sy'n gwneud cais i Weinidogion Cymru am gydsyniad ar gyfer cynnig ardal gadw neu gynnig ardal ddatblygu dalu ffi o £1068 os yw Gweinidogion Cymru yn rhoi cydsyniad.

(2) Rhaid talu'r ffi sy'n daladwy o dan baragraff (1) o fewn 30 diwrnod i'r adeg y mae Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r trwyddedai am y penderfyniad ynghylch y cais oni bai bod Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r trwyddedai y caniateir i'r ffi gael ei thalu ar ddyddiad diweddarach.

Fee payable for a consent to a retention area proposal or a development area proposal

5.—(1) A licensee who applies to the Welsh Ministers for consent to a retention area proposal or a development area proposal must pay a fee of £1068 if the Welsh Ministers grant consent.

(2) The fee payable under paragraph (1) must be paid within 30 days of the Welsh Ministers notifying the licensee of the determination of the application unless the Welsh Ministers notify the licensee that the fee may be paid at a later date.

Ffioedd penodedig sy'n daladwy am gydsyniadau eraill

6.—(1) Rhaid i drwyddedai sy'n gwneud cais i Weinidogion Cymru am gydsyniad ar gyfer gweithgaredd neu fater a restrir yng ngholofn gyntaf Tabl 2 dalu'r ffi gyfatebol yn ail golofn y tabl hwnnw.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), rhaid talu'r ffi sy'n daladwy o dan baragraff (1) ar adeg gwneud y cais, oni bai bod Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r trwyddedai y caniateir i'r ffi gael ei thalu ar ddyddiad diweddarach.

(3) Mewn perthynas â'r gweithgareddau a restrir ym mharagraff (4), rhaid i'r ffi sy'n daladwy o dan baragraff (1) gael ei thalu o fewn 30 diwrnod i'r adeg y mae Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r trwyddedai am y penderfyniad ynghylch y cais oni bai bod Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r trwyddedai y caniateir i'r ffi gael ei thalu ar ddyddiad diweddarach.

(4) Mae'r gweithgareddau fel a ganlyn—

(a) cais am gydsyniad i estyn tymor cychwynnol, ail dymor neu dymor terfynol trwydded petrolewm;

(b) cais am gydsyniad i ddiwygio rhaglen waith.

Tabl 2

Gweithgaredd neu fater y mae cydsyniad yn ofynnol ar ei gyfer	*Y ffi sy'n daladwy*
Drilio prif ffynnon	£729
Drilio ffynnon ddargyfeirio sy'n fforchio o'r brif ffynnon i leoliad targed gwahanol i'r brif ffynnon	£596
Gosod neu ailosod offer mewn ffynnon at ddiben galluogi cynhyrchu neu chwistrellu hydrocarbon	£566
Cael gafael ar betrolewm o ardal drwyddedig	£1,052
Newid cydsyniad er mwyn cael gafael ar betrolewm o ardal drwyddedig	£1,052
Llosgi neu awyru petrolewm o ffynnon	£765
Newid cydsyniad i losgi neu awyru petrolewm o ffynnon	£765
Atal ffynnon dros dro	£596
Ailddechrau defnyddio unrhyw ffynnon sydd wedi ei hatal dros dro	£566

Cefnu ar ffynnon yn barhaol	£566
Newid trwyddedai trwydded petrolewm	£401
Newid y buddiolwr hawliau a roddir gan drwydded petrolewm	£401
Penodi gweithredwr o dan drwydded petrolewm	£1,201
Estyn tymor cychwynnol, ail dymor neu dymor terfynol trwydded petrolewm	£1,000
Diwygio rhaglen waith	£1,000

Y ffi sy'n daladwy er mwyn pennu maes olew

7.—(1) Rhaid i drwyddedai sy'n gwneud cais i Weinidogion Cymru am benderfyniad o dan Atodlen 1 i Ddeddf Trethu Olew 1975(**1**) (pennu meysydd olew) dalu ffi o £1,124.

(2) Rhaid i'r ffi sy'n daladwy o dan baragraff (1) gael ei thalu o fewn 30 diwrnod i'r adeg y mae Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r trwyddedai am y penderfyniad ynghylch y cais oni bai bod Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r trwyddedai y caniateir i'r ffi gael ei thalu ar ddyddiad diweddarach.

Talu ffioedd

8.—(1) Rhaid i ffi sy'n daladwy o dan y Rheoliadau hyn gael ei thalu yn y fath fodd ag y mae Gweinidogion Cymru yn ei bennu.

(2) Nid yw ffi wedi ei thalu o dan y Rheoliadau hyn hyd nes bod Gweinidogion Cymru wedi cael swm cyfan y ffi mewn arian cliriedig.

(3) Mae ffi sy'n ddyledus o dan y Rheoliadau hyn yn adferadwy fel dyled sifil.

Lesley Griffiths

Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
4 Medi 2018

(**1**) 1975 p. 22. Diwygiwyd Atodlen 1 gan baragraff 20 o Ran 2 o Atodlen 6 i Ddeddf Cymru 2017. Mae diwygiadau eraill i Atodlen 1 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

©℗Hawlfraint y Goron 2018

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2018

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

©℗Hawlfraint y Goron 2018

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2018

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

Printed pages	Cover Price (mono)
1-6	£4.90
7-31	£6.90
32-60	£11.50
61-71	£12.65
72-84	£16.40
85-96	£18.40
97-112	£18.95
113-128	£21.85
129-144	£23.85
145-164	£26.75
165-180	£29.35
181-220	£31.60
221-260	£34.20
261-299	£37.65
300-399	£45.15
400-499	£53.20
500+	£0.070 per printed page

NOTE: Printed Pages includes the Back Page

1234567890

£0.00

W2018????? 07/2018

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2018/???